| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 26 Medi 2018 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Richard Weigh, Pennaeth Cyllid |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Steve Gadd, Prif Gyfrifydd |
| **Teitl:** | **Cymeradwyo Datganiad Cyfrifon 2017/18** |

1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i baratoi datganiad o gyfrifon sy'n cydymffurfio â safonau cyfrifo cymeradwy. Mae'n rhaid i'r aelodau etholedig gymeradwyo'r cyfrifon a archwiliwyd yn ffurfiol ar ran y Cyngor.

2. **Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Cymeradwywyd datganiadau ariannol 2017/18, yn amodol ar archwiliad, gan y Pennaeth Cyllid ar 15 Mehefin 2018, sydd bythefnos yn gynharach na'r terfyn amser a gytunwyd sef 30 Mehefin 2018. Cyflwynwyd y cyfrifon drafft i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar 11 Gorffennaf 2018 ac roeddent yn agored i'w harolygu'n gyhoeddus o 9 Gorffennaf i 3 Awst.
Mae'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r cyfrifon a archwiliwyd, gan gynnwys barn yr archwilydd allanol, yn ffurfiol erbyn diwedd mis Medi. Dirprwywyd y cyfrifoldeb o gymeradwyo'r cyfrifon a archwiliwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cael ei baratoi yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Mae Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifeg Cyhoeddus (CIPFA) yn cynhyrchu Cod Ymarfer ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol, yn seiliedig ar y Safonau ac mae'r Cyngor wedi paratoi cyfrifon 2017/18 yn unol â'r Cod hwnnw.

Mae'r cyfrifon yn cynnwys barn archwilio a thystysgrif archwilio ddiamod. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor os oes unrhyw faterion newydd i adrodd arnynt.

3. **Beth yw'r Argymhellion?**

Bod yr aelodau etholedig yn cymeradwyo Datganiad o Gyfrifon 2017/18 sydd yn **Atodiad 1** yr adroddiad hwn.

Bydd gofyn i'r Cadeirydd ac i'r Prif Swyddog Cyllid lofnodi'r Cyfrifon a'r Llythyr Sylwadau yn y cyfarfod.

4. **Manylion yr Adroddiad**

Cafodd y cyfrifon sy'n cael eu cyflwyno eu paratoi i gydymffurfio â'r safonau cyfrifo gofynnol.

Cyfres o safonau cyfrifo sy’n cael eu defnyddio ledled y byd yw’r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Cafodd y Safonau eu datblygu ar gyfer y sector preifat ond, mewn egwyddor, mae'r mwyafrif helaeth o drafodion yr un fath o ran cyfrifo beth bynnag yw'r sector. Gan fod yna rai meysydd lle mae triniaeth gyfrifo'r sector cyhoeddus yn wahanol i’r Safonau rhyngwladol (oherwydd, er enghraifft, gofynion deddfwriaethol) cafodd set ychwanegol o safonau eu cyflwyno ar eu cyfer sy’n cael eu galw yn Safonau Cyfrifo’r Sector Cyhoeddus.

Roedd y cyfrifon ar gael i’w harchwilio yn ôl y gofyn ac maen nhw hefyd wedi bod ar gael i’r cyhoedd eu harchwilio. Bu Swyddfa Archwilio Cymru yn archwilio’r cyfrifon a bydd trosolwg o’u canfyddiadau a’u hasesiad o’r broses yn cael eu cyflwyno mewn adroddiad i’r Pwyllgor. Yr Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol yw Atodiad 2 yr adroddiad hwn.

Arweiniodd y broses archwilio at rai newidiadau technegol ac at gywiriadau a newidiadau eraill. Bydd rhagor o fanylion am y rhain yn cael eu cyflwyno yn adroddiad yr archwiliwr.

Am y tro cyntaf mewn sawl blwyddyn, mae nifer o gamddatganiadau sydd heb eu cywiro. Caiff pob eitem sydd ag effaith barhaus eu cywiro yn 18/19. Nodwyd yr eitemau ar ôl ein terfyn amser mewnol ar gyfer cynhyrchu Datganiad Cyfrifon Terfynol diwygiedig ac felly oherwydd na chafodd yr eitemau eu cyfrif fel rhai sylweddol, nid ydynt wedi’u cywiro yng nghyfrifon 17/18. Mae’r dyfyniad isod o’n hadroddiad i’r pwyllgor hwn ym mis Chwefror 2018, pan gafodd y dull hwn ei argymell a’i gytuno er mwyn helpu i hwyluso cau’r cyfrifon yn gynnar:

*“Eleni bwriedir newid y dull o drin camddatganiadau ansylweddol a nodir gan SAC wrth iddynt archwilio cyfrifon. Yn y gorffennol mae pob camddatganiad wedi’u cywiro yn y Datganiad Cyfrifon sydd wedi caniatáu i SAC gynnwys y datganiad canlynol yn eu Hadroddiad Archwilio'r Datganiadau Ariannol i PLlC bob mis Medi: “Nid oes unrhyw gamddatganiadau wedi’u nodi yn y datganiadau ariannol, sy’n dal i fod heb eu cywiro". Bu raid i’r Tîm Technegol wneud llawer iawn o waith i gyflawni hyn – fodd bynnag yn bwysicach roedd yn golygu nad oedd modd i SAC gwblhau eu harchwiliad nes bo’r holl gywiriadau, waeth pa mor fach, wedi’u hail-wneud a'u rhoi yn y Datganiad Cyfrifon diwygiedig ac wedi cael eu hail-archwilio gan SAC wedyn. Bydd y terfynau amser diwygiedig yn ei gwneud yn anodd i SAC ddarparu eu dyfarniad archwilio yn y dyfodol. Gan hynny mae CSDd a SAC wedi cytuno na fydd y Datganiad Cyfrifon drafft fel arfer yn cael ei ddiwygio i gywiro camddatganiadau ansylweddol. Mae hwn yn newid allweddol a fydd yn galluogi’r Cyngor a SAC i gyrraedd y dyddiadau cau diwygiedig. Mae’n bwysig nodi’r canlynol:*

- *Ni fydd y newid hwn yn y broses yn effeithio’r farn archwilio gyffredinol.*
- *Er bod SAC wedi cytuno â’r dull hwn, maent yn rhwymedig trwy statud i adrodd wrth y PLlC am unrhyw gamddatganiadau sy'n dal heb eu cywiro. Dylai’r PLlC ddisgwyl gweld y rhestr hon mewn adroddiadau SAC yn y dyfodol, ond ni fydd hynny’n golygu bod ansawdd y gwaith a wneir gan yr Adran Gyllid wedi gostwng.”*

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae cyhoeddi Datganiad o Gyfrifon yn sail i stiwardiaeth a llywodraethu ariannol y Cyngor ac felly mae’n cefnogi holl wasanaethau a blaenoriaethau’r Cyngor.

6. **Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**
Does dim costau ychwanegol yn codi o ganlyniad i’r adroddiad hwn.

7. **Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?**
Barn broffesiynol y Swyddog Adran 151 yw nad oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**
Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi gweithio'n agos â’r tîm Cyllid er mwyn sicrhau bod yr archwiliad yn cael ei gwblhau mewn pryd ac yn llwyddiannus. Caiff barn broffesiynol ei llunio oddi wrth nifer o ddisgyblaethau eraill tu hwnt i gyllid, fel yr adain gyfreithiol, prisio eiddo, adnoddau dynol a phensiynau.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
Unwaith eto, mae'r Datganiad o Gyfrifon wedi derbyn barn archwilio ddiamod. Mae hyn yn gryn lwyddiant o gofio am faint a chymhlethdod y cyfrifon. Bydd gweithdrefnau mewnol yn parhau i gael eu hadolygu’n flynyddol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn dal yn darparu datganiadau ariannol o ansawdd da. Bydd hyn yn ystyried y materion a godwyd yn yr archwiliad sydd wedi eu codi yn yr adroddiad archwilio.

Mae hefyd yn foddhaol bod y cyfrifon drafft wedi’u paratoi a'u bod yn barod i’w harchwilio o fewn y terfyn amser cynharach, sef 15 Mehefin, sef y terfyn amser statudol ar gyfer Datganiad Cyfrifon 2018/19. Bydd gwaith yn parhau i symud y dyddiad cwblhau ymlaen er mwyn sicrhau bod y Cyngor mewn sefyllfa i fodloni’r terfyn amser sef 31 Mai ar gyfer cyfrifon 2020/21.

10. **Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**
Byddai’r Cyngor yn mynd yn groes i’w ddyletswydd statudol pe na fyddai'n gallu cymeradwyo'r cyfrifon erbyn 30 Medi.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**
Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Penodedig gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i archwilio ac ardystio cyfrifon y cyngor a rhaid iddo fod yn fodlon bod y cyfrifon wedi cael eu cwblhau yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005. Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r cyfrifon archwiliedig erbyn 30 Medi.